# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## Cofnodion Cryno'r Pwyllgor: CC(3)-04-11 : Dydd Iau 17 Chwefror 2011

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV ar: http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_17_02_2011&t=0

**Amser:** 8.59 – 10.39
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Sandy Mewies, Delyn (Cadeirydd)
Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru
Rosemary Butler, Gorllewin Casnewydd
Veronica German, Dwyrain De Cymru
Mark Isherwood, Gogledd Cymru
Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Lynne Neagle, Tor-faen

**Tystion**
Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Eitemau 2 a 3)
Karin Phillips, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol (Eitem 2)
Jason Lintern, Pennaeth y Gangen Cyfiawnder Ieuenctid a Cham-drin Domestig (Eitem 2)
Wendy Thomas, Rheolwr Polisi, Uned y Sector Gwirfoddol (Eitem 3)
Paul Dunhill, Uned y Sector Gwirfoddol (Eitem 3)

**Staff y Pwyllgor**
Tom Jackson, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc

### 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (8.59 – 9.00)

1.1Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Eleanor Burnham, Alun Davies a Joyce Watson. Roedd Veronica German yn dirprwyo ar ran Eleanor Burnham ac roedd Rosemary Butler a Val Lloyd yn dirprwyo ar ran Alun Davies a Joyce Watson, yn ôl eu trefn.

1.3 Datganodd Val Lloyd fod ei phriod yn aelod o Awdurdod Heddlu De Cymru.

### 2: Craffu ar y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am weithredu argymhellion adroddiad mis Rhagfyr 2008 y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Gam-drin Domestig (9.00 – 9.39)

CC(3)-04-11 (p1)

2.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yng nghyswllt gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Gam-drin Domestig

**Camau i'w cymryd**

Gofynnwyd i'r Clerc anfon y wybodaeth a gafodd y Pwyllgor gan Gymorth i Ferched Cymru ar 16 Chwefror 2011 at y Gweinidog.

Gofynnwyd i'r Gweinidog roi gwybod i'r Pwyllgor pan fydd dyddiad ar gyfer cyflwyno'r timau cymorth i deuluoedd wedi'i bennu.

### 3: Craffu ar y wybodaeth ysgrifenedig ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am weithredu argymhellion adroddiad mis Mai 2008 y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Ariannu Sefydliadau'r Sector Gwirfoddol (9.39 – 10.09)

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yng nghyswllt gweithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Ariannu Sefydliadau'r Sector Gwirfoddol.

**Camau i'w cymryd**

Gofynnwyd i'r Gweinidog anfon copi o adroddiad yr is-grwp, a ddylai fod ar gael erbyn diwedd mis Mawrth, at y Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Gweinidog baratoi nodyn i'r Pwyllgor am gyllidebu ar sail rhyw.

### 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitemau 5 a 6

**(10.09)**

4.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, i drafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5: Ymchwiliad i effaith bosibl Mesur Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol ar ddiogelwch cymunedau yng Nghymru

5.1. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn nodi – drwy gynnwys troednodiadau priodol – fod dau o Aelodau'r Pwyllgor (Mark Isherwood AC a Mohammad Asghar AC) yn gwrthwynebu cynnwys dau o'r argymhellion yn yr adroddiad.

## 5.2 Yn amodol ar gynnwys y troednodiadau hyn, cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad.

## 6: Trafod gwaith a phrosesau'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant yn ystod y trydydd Cynulliad

6.1 Trafododd y Pwyllgor waith a phrosesau'r Pwyllgor yn ystod y trydydd Cynulliad gan awgrymu pynciau i'w cynnwys yn yr adroddiad etifeddiaeth.

6.2 Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n trafod ei adroddiad etifeddiaeth drafft yn ystod y cyfarfod nesaf.

**7: Papurau i'w nodi**
CC(3)-04-11 (p3) - Blaenraglen waith y Pwyllgor
CC(3)-04-11 (p4) - Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr
CC(3)-03-11- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 3 Chwefror

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Chwefror 2011**